These minutes are subject to approval as an accurate record at the next meeting of the Cydbwyllgor Archifau Morgannwg

CYDBWYLLGOR ARCHIFAU MORGANNWG

Minutes of the Annual Meeting of the Cydbwyllgor Archifau Morgannwg held at Archifau Morgannwg - Clos Parc Morgannwg, Lecwydd, Caerdydd on Dydd Gwener, 16 Rhagfyr 2016 at 2.00 pm.

Present:

| | |
|---|---|
| Members Representing: | Cynghorydd Mansbridge, Merthyr Tydfil County Borough Council (Cadeirydd)<br>griffiths, Rhondda Cynon Taf County Borough Council (Dirprwy Gadeirydd)<br>Clarke, Bridgend County Borough Council<br>Smith, Bridgend County Borough Council<br>Higgs, Caerphilly County Borough Council<br>Cowan, City of Cardiff Council<br>Robson, City of Cardiff Council<br>Thomas, City of Cardiff Council<br>Ward, Rhondda Cynon Taf County Borough Council<br>Cynghorydd Jones, Rhondda Cynon Taff |
| Officers in Attendance | |
| Apologies: | Forehead, Caerphilly County Borough Council<br>Rosser, Rhondda Cynon Taf County Borough Council<br>John, Vale of Glamorgan of Glamorgan Council<br>K Thomas CVO, JP, Cyf-etholwr |

15 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Rosser, John, Forehead a Kate Thomas.

16 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

17 : I ETHOL CADEIRYDD Y CYDBWYLLGOR ARCHIFAU MORGANNWG AR GYFER BLWYDDYN GYNGOR 2016/17

PENDERFYNWYD – ethol y Cynghorydd Sirol Margaret Griffiths, Cyngor Bwrdeistref Sir Rhondda Cynon Taf, yn Gadeirydd y Cydbwyllgor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/17.

18 : ETHOL IS-GADEIRYDD CYDBWYLLGOR ARCHIFAU MORGANNWG AR GYFER BLWYDDYN GYNGOR 2016/17

PENDERFYNWYD – ethol y Cynghorydd Sirol Jayne Cowan, Cyngor Caerdydd, yn Is-Gadeirydd y Cydbwyllgor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/17.

19 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Medi 2016 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd ar yr amod bod ymddiheuriadau a dderbyniwyd gan y Cynghorydd M Griffiths yn cael eu cynnwys.

20 : ADRODDIAD Y CYFNOD 1 MEDI 2016 - 30 TACHWEDD, 2016

Rhoddwyd diweddariad i'r Aelodau ar waith a chyflawniadau'r gwasanaeth ar gyfer y cyfnod 1 Medi 2016 i 30 Tachwedd 2016.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Cyfeiriodd yr Aelodau at drosglwyddo Pensiynau Archifau Morgannwg a gofynnon nhw am wybodaeth ynghylch yr amserlen o ran gwneud hyn.
- Dywedodd swyddogion fod un o'r rhesymau dros yr oedi oedd oherwydd ei bod wedi'i dal rhwng actiwarïaid y ddau Awdurdod Lleol, sydd wedi bod yn mynd rhagddi ers yr 8 mlynedd diwethaf.
  Credodd yr Aelodau y dylid ysgrifennu llythyr ar ran y Cydbwyllgor yn gofyn am amserlen ar gyfer datrys hyn. Awgrymwyd bod RCT yn arwain ar hyn.
- Cyfeiriodd yr Aelodau at hyfforddiant yr Iaith Gymraeg a gofynnon nhw a oes cymhwyster wedi'i gwblhau.
  Esboniodd swyddogion fod staff yn gallu ennill cymhwyster trwy wneud y cwrs.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at Dr Hicks o Benarth a gofynnon nhw ai'r teulu sy'n cadw'r llythyr; dywedodd swyddogion fod hyn yn gywir.

- Gofynnodd yr Aelodau am ddiweddariad ar y wobr Ffilm a gofynnon nhw a oes unrhyw gyhoeddusrwydd wedi dod yn ei sgil.
- Dywedodd swyddogion eu bod yn dal i aros i'r wobr gyrraedd ac yna gellid trefnu digwyddiad cyhoeddusrwydd.
- Cyfeiriodd yr Aelodau at y gostyngiad yn nifer yr ymweliadau o fis Medi/mis Tachwedd 2016 o'r un cyfnod yn 2016 ac ai KPI oedd nifer yr ymweliadau. Dywedodd swyddogion nad KPI oedd e a'i bod yn anodd gwybod pam yn union mae'r niferoedd wedi gostwng; mae llai o ymweliadau grŵp a chyfarfodydd wedi bod ond y ffaith bod mwy a mwy o wybodaeth ar gael ar-lein a bod y catalog wedi gwella fyddai ffactor arall a gyfrannodd. Mae hyn yn golygu bod pobl wedi'u paratoi'n well a bod angen iddynt ymweld â'r adeilad yn llai. Nodwyd bod mwy o bobl yn edrych ar y wefan a chredodd yr Aelodau y dylai'r ffigurau ar-lein gael eu cynnwys yn yr adroddiad chwarterol.

- Gofynnodd yr Aelodau faint o bobl yn gyffredinol sydd yn y grŵp.
- Dywedodd swyddogion bod 15 yn rhif da i'w gael; os daw grwpiau mwy o 30 neu 40 yna cânt eu rhannu yn 2 grŵp llai.

PENDERFYNWYD: Nodi'r adroddiad.

21 : CYNLLUN ARCHIFAU MORGANNWG BLYNYDDOL 2017/18

Dywedwyd wrth yr Aelodau, yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol, fod cynnydd wedi bod yn erbyn yr holl dargedau yn y cynllun blynyddol cyfredol ac y byddai adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Roedd y strategaeth dair blynedd y cytunwyd arni yn 2015/16 yn ei blwyddyn olaf. Mae gwerthusiadau wedi'u cynllunio'n gynigion yn unig; byddai gwerthusiad manwl yn cael ei nodi ar gyfer y pwyntiau bwled y mae staff yn gweithio iddynt yn rhan o bob tasg. Atodwyd yr amcanion ar gyfer y cyfnod wedi'u dilyn gan y cynllun manwl ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Mae'r cynllun wedi'i lunio ar ôl ymgynghori'n llawn gyda staff a byddai targedau'n cael eu monitro trwy'r flwyddyn.

Dywedwyd wrth yr Aelodau hefyd mai cynllun pennawd oedd e ac y byddai manylion yn cael eu cytuno gyda staff yn y misoedd i ddod.

Amlinellwyd y Datganiad o Ddiben a dywedwyd wrth yr Aelodau fod y targedau incwm ar ddogfen ar wahân.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

- Trafodwyd yr Aelodau fonitro trwy'r flwyddyn ac edrych ar y targedau.
- Dywedodd swyddogion ei bod yn wthiad deublyg, nifer y derbyniadau ac ansawdd y derbyniadau; adroddir gwybodaeth yn chwarterol ond gellid llunio cymariaethau blynyddol.
- Cyfeiriodd yr Aelodau at yr holl waith caled oedd yn cael ei wneud a gobeithion nhw nad oedd gormod o bwysau ar staff.
  Cyfaddefodd swyddogion, os oedd angen cynllun mwy manwl, yna y byddai angen mwy o adnoddau.

- Nodwyd bod yr adroddiadau chwarterol yn rhoi mwy o fanylion; credodd nifer o'r Aelodau fod y wybodaeth hon yn ddigonol ac y gellid llunio tueddiadau trwy ei defnyddio, awgrymodd eraill fod angen mwy o fanylion ar yr adroddiad blynyddol er mwyn ei ddadansoddi a'i fod yn rhy ddisgrifiadol.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo Cynllun Blynyddol Archifau Morgannwg 2017/18.

22 : ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB 2016/17 A 2017/18 CYNIGION CYLLIDEB

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr adroddiad hwn yn rhoi'r alldro refeniw a ragwelir ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17. Manylwyd hefyd ar y gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2017/18. Amlinellodd swyddogion y pwyntiau allweddol o wybodaeth o'r adroddiad a gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau fel a ganlyn:

Monitro Cyllideb 2016/17

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd gofyniad i gael arian dros ben a dywedwyd wrthynt fod y cytundeb ond yn nodi na ddylai fod diffyg ariannol neu orwariant.
- Mae nifer o drafodaethau wedi bod ynghylch arian wrth gefn a chredwyd bod unrhyw beth sy'n fwy na £100k yn rhy uchel.
  Credodd yr Aelodau ei bod yn bwysig cynnal arian wrth gefn ar gyfer materion megis NNDR gan ei bod yn golygu na cheisir cyfraniadau pellach gan awdurdodau lleol.

  Esboniodd swyddogion fod £100k wedi'i gymryd o'r arian wrth gefn yn flaenorol, y llynedd penderfynwyd dileu'r dull hwn yn raddol trwy gynyddiadau £25k y flwyddyn nes na fydd angen defnyddio'r arian wrth gefn i ariannu'r gyllideb. Bu trafodaeth bellach ac atgoffwyd yr Aelodau ei bod yn well cael arian wrth gefn fel rhwyd diogelwch yn hytrach na dosbarthu i'r awdurdodau lleol.

- Ceisiodd yr Aelodau eglurhad ar y cyfranwyr YG a dywedwyd wrthynt, wrth osod y gyllideb, nad ystyriwyd staff sy'n dod yng nghanol y flwyddyn; dylai'r gyllideb fod wedi'i hailosod yn hytrach na chael ei hailweithio y flwyddyn flaenorol; roedd gwahaniaeth mewn pensiynau hefyd.

- Gofynnodd yr Aelodau, pe bai'r arian wrth gefn yn parhau i leihau, a fyddai'n bosibl y caiff swyddi eu dileu.
- Dywedodd swyddogion fod y diffyg yng nghyflogeion wedi'i ddatrys yn y cynigion sy'n dod ar gyfer y gyllideb felly ni ddylai'r risg honno fodoli; oni bai bod yr awdurdodau lleol sy'n cyfrannu yn gofyn am doriadau enfawr neu arbedion. Dywedodd swyddogion hefyd ei bod yn bwysig ceisio cynyddu incwm lle nad oes ymrwymiad i'w wario ar beth penodol; roedd y gyllideb eisoes yn cael ei hariannu gan 10% o'r incwm a grëir ac roedd hyn yn cynyddu blwyddyn ar ôl blwyddyn.

Cynigion ar gyfer Cyllideb 2017/18

- Roedd yr Aelodau'n falch o weld bod ffioedd Archwilio wedi lleihau.

- Gofynnodd yr Aelodau pryd byddai'r cydgytundeb yn dod i ben a dywedwyd wrthynt mai 25 mlynedd o'r dyddiad cyflwyno felly 2035.

PENDERFYNWYD:

i. Nodi'r sefyllfa flwyddyn lawn a ragwelir ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17 fel y'i cyflwynir
   ym mharagraffau 2 i 10 yr adroddiad.

ii. Argymell derbyn y cynigion drafft ar gyfer cyllideb 2017/18, fel y'u cyflwynir ym mharagraffau 11 i 25 yr adroddiad.

23 : UNRHYW FATER ARALL

Roedd yr Aelodau am dalu teyrnged i'r Archifydd a'i thîm yn enwedig mewn perthynas â'r sefyllfa NNDR.

24 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir cyfarfod nesaf Cydbwyllgor Archifau Morgannwg ar 17 Mawrth 2017.

The meeting terminated at Time Not Specified